pp mehefin 14_Layout 1 11/06/2014 06:52 Page 1

Pris: 50c

# Papur Pawb

Mehefin 2014 Rhif 400



Dyrchafiad ond dim Pencampwriaeth – tud 12

tud 3 Pobl a Phethe
tud 4 Rali CFfI
tud 11 Y Gair Olaf
tud 12 Chwaraeon

# Dathlu'r 40



Mae'r rhifyn mawr wedi cyrraedd, sef rhifyn rhif 400 a hynny ddeugain mlynedd ers sefydlu'r papur yn 1974. Wrth i ni gyrraedd y garreg filltir bwysig hon, braf iawn oedd gweld neuadd Ysgol Gymunedol Tal-y-bont yn llawn ar gyfer parti dathlu Papur Pawb yn ddeugain oed prynhawn ddydd Gwener, 6 Mehefin. Roedd y gynulleidfa'n cynnwys rhai o fabis ifanca'r ardal a rhai o'i thrigolion hynaf. Cymuned gyfan yn ei llawn ogoniant yn cael cyfle i fwynhau te prynhawn gyda'i gilydd!


Llywyddwyd y cyfan gan Arthur Dafis, Cadeirydd Cymdeithas Papur Pawb a phwysleisiodd gyfraniad arbennig papurau bro at gymunedau Cymru a chyfraniad arbennig Papur Pawb i'r gornel yma o ogledd Ceredigion.

Cafwyd gwestai arbennig i ddiddanu'r plant ac mae'n rhaid dweud eu bod wrth eu boddau yng nghwmni cyn Fardd Plant Cymru, Eurig Salisbury wrth iddynt ei gynorthwyo i lunio cerdd yn nodi'r achlysur.



Cynhaliwyd cystadleuaeth arbennig i'r dathlu: 'Be allwch chi ei wneud allan o rifyn o Papur Pawb?', sef creu gwaith 2D neu 3D allan o rifyn o'r papur a chyhoeddwyd yr enillwyr yn ystod y parti dathlu. Cyflwynwyd tocynnau llyfrau iddynt yn rhoddedig gan Y Lolfa a llongyfarchiadau mawr i'r canlynol:

Cyfnod Sylfaen: Finn Langley, Ysgol Llangynfelyn
Cyfnod Allweddol 2: Becca Heming Jenkins, Ysgol Tal-y-bont a Tilly Heathfield, Ysgol Llangynfelyn
Oedolion: Cydradd gyntaf: Helen Jones a Falyri Jenkins



Yn haeddiannol iawn torrwyd y gacen ddathlu gan Gwilym Huws. Roedd hi'n braf cael croesawu Gwilym yn ôl i Dal-y-bont o gofio mai Gwilym a'i wraig Eleri oedd Golygyddion cyntaf Papur Pawb a dau a gyfrannodd gymaint at ei lwyddiant a'i barhad. Fel y nododd Gwilym, does dim yn haws na dechrau rhywbeth megis papur bro, y gamp yw ei chynnal hi. Roedd y parti'n dyst i'n llwyddiant ni fel cymuned i wneud hynny ers 1974 a phob argoel y bydd modd gwneud hynny am flynyddoedd lawer i ddod. Pen blwydd hapus iawn Papur Pawb ac ymlaen a ni i'r pedwar degawd nesaf!

## Papur Pawb

| | | |
|---|---|---|
| **Golygydd Cyffredinol:** | Gwyn Jenkins<br>Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion<br>golygydd@papurpawb.com | **(01970) 832560** |
| **Tynnu lluniau:** | Cysyllter â golygyddion y mis | |
| | **GOHEBYDDION LLEOL** | |
| **Tal-y-bont:** | Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont | **832592** |
| | Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont | **832438** |
| **Maes-y-deri:** | Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont | **832483** |
| **Parsel Henllys:** | Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont | **832498** |
| **Bont-goch:** | Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch | **832566** |
| **Tre Taliesin:** | Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin | **832230** |
| **Tre'r-ddôl:** | Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl | **832429** |
| | Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl | **(01654) 781260** |
| **Eglwysfach/Ffwrnais:** | Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais | **(01654) 781324** |
| | **CYMDEITHAS PAPUR PAWB** | |
| **Cadeirydd:** | Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont | **832093** |
| **Is-gadeirydd:** | Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont | **832760** |
| **Ysgrifennydd:** | Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont | **832433** |
| **Trysorydd:** | Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont | **832093** |
| **Tanysgrifiadau:** | Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont | **832448** |
| **Hysbysebion:** | Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont | **832076** |
| **Plygu'r Papur:** | Gwenllïan Parry-Jones; Tegwen Jones | |
| **Dosbarthwyr:** | John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones | |

**Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.**


# Llythyron

**Annwyl Olygydd,**

Rydym i gyd wedi gweld y beirniadu ar y GIG yng Nghymru sydd wedi bod yn y cyfryngau dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae wedi mynd yn gocyn hitio. Ond, hoffwn rannu stori am lwyddiant ym maes iechyd â'ch darllenwyr. Yn ôl ymchwil gan y BMJ Open, am y tro cyntaf mewn hanner canrif, nid retinopathi diabetig yw prif achos dallineb mewn pobl oedran gweithio yng Nghymru a Lloegr.

Er bod rhai rhesymau posibl am hyn, nid oes dwywaith fod sgrinio llygaid cyson yng Nghymru yn gweithio. Ar y dechrau'n deg, efallai nad oes gan retinopathi symptomau amlwg. Felly, drwy fynychu apwyntiad gyda'r Gwasanaeth Sgrinio ar gyfer Retinopathi Diabetig Cymru, gall person sydd â diabetes helpu i ganfod unrhyw olion o ddifrod i'r llygad sy'n gysylltiedig â diabetes. Drwy ganfod y cyflwr yn gynnar, gellir gwneud mwy i gywiro unrhyw ddifrod a'i rwystro rhag gwaethygu.

Gobeithio y bydd hyn yn annog y 173,000 o bobl sydd â diabetes yng Nghymru i sicrhau eu bod yn cael eu harchwiliadau rheolaidd ar eu llygaid. I berson sydd â diabetes, gallai mynd i'r apwyntiad hwn a chadw rheolaeth dda ar ei gyflwr olygu'r gwahaniaeth rhwng colli neu gadw ei olwg.

*Dai Williams*
*Cyfarwyddwr Cenedlaethol*
*Diabetes UK Cymru*

## CAE'R ODYN GALCH

Cynhelir
**CYFARFOD BLYNYDDOL**
y Gymdeithas ar nos Fercher
2 Gorffennaf
am 7.30 yn Neuadd Goffa
Tal-y-bont

## Y RHYFEL BYD CYNTAF
## PROSIECT COFIO a MYFYRIO

(o dan nawdd capeli'r fro)

Y bwriad: Creu arddangosfa (ar gyfer mis Hydref) o bethau sy'n perthyn i deuluoedd a chymdogaethau lleol.

Yr angen: Llythyron, lluniau, cardiau post, medalau, dillad neu – yn wir – unrhyw beth yn eich meddiant sydd â pherthynas leol â'r Rhyfel Byd 1af.

Beth i wneud: Dewch â beth bynnag sydd gennych i unrhyw un o'r canolfannau isod ar y dyddiad a'r amser priodol.

Beth fydd yn digwydd: Byddwn yn sganio neu yn gwneud copi yn y fan a'r lle. Bydd modd i chi wedyn fynd â'r llun neu'r llythyr gwreiddiol nôl gartre yn ddiogel gyda chi.

**DIWRNODAU CYWAIN**

8 Gorffennaf: Neuadd yr Eglwys, Penrhyncoch (5 – 7 o'r gloch)
9 Gorffennaf: Neuadd Rhydypennau (2 – 4 o'r gloch)
10 Gorffennaf: Neuadd Penllwyn (2 – 4 o'r gloch)
10 Gorffennaf: Neuadd y Paith, Capel Seion (5 – 7 o'r gloch)
11 Gorffennaf: Neuadd Goffa Tal-y-bont (2 – 4 o'r gloch)

BYDD PANED A CHROESO MAWR YM MHOB CANOLFAN
Manylion pellach gan John Leeding 01970 832672

# Dyddiadur

**Mehefin**

15 **Bethel** 2.00 Parch Andrew Lenny
**Nasareth**
**Rehoboth** 10.00 Parch Richard Lewis
**Eglwys Dewi Sant** 11.00 Boreol Weddi

16 **Neuadd Goffa** Cyfarfod Blynyddol - Merched y Wawr a 'Rhywbeth Lleol' (Ann Jenkins)

18 **Sefydliad y Merched** Trip 'Dilyn Llwybr yr Eglwys'

21 Parti Canol Haf, **Siop Cynfelyn**, Blaeneinion, 4 tan yr hwyr

22 **Bethel** 5.00 Gweinidog (C)
**Nasareth**
**Rehoboth** 5.00 Bugail
**Eglwys Dewi Sant** 11.00 Gwasanaeth Teuluol

24 **Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn** 7.30 (Barbara Walker)

27 **Eglwys St. Pedr Elerch**, Gwin, Caws a Chân, 7.00 o'r gloch

29 **Bethel** 2.00 Oedfa Undebol Dydd yr Arglwydd yng Nghapel y Garn,Bow Street.
**Nasareth**
**Rehoboth** Cymanfa Dydd yr Arglwydd (Ysgolion Sul, Morlan10.00; Garn 2.00)
**Eglwys Dewi Sant** 10.00 Undebol (yn Eglwys Dewi Sant)

**Gorffennaf**

1 **Llanfach Taliesin** 7 o'r gloch 'Teithwyr Anturus' (Sgwrs gan Micheal Freeman) Croeso cynnes i bawb. (Sefydliad y Merched)

6 **Bethel** 10.00 Gweinidog
**Nasareth** 2.00 Bugail (C)
**Rehoboth** 5.00 Bugail
**Eglwys Dewi Sant** 11.00 Cymun Bendigaid


Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**

- ***Y Môr*** (16 Mehefin-1 Awst). Arddangosfa arbennig ar thema *Y Môr*. Yn cynnwys gwaith celf gan Marian Delyth, Anthony Evans, Ruth Jên, Wynne Melville Jones, Ann Lewis, Gareth Owen, John Rowlands a cherddi (nifer ohonynt mewn llawysgrifen ac wedi'u fframio) gan amryw o feirdd.
- ***Ar Dramp yn Dre: taith gerdded Morlan*** (6.00, 25 Mehefin). Eleni, taith o amgylch yr Hen Goleg gydag Elgan Philip Davies.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
**www.morlan.org.uk**

*Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH*
*01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan*


13 **Bethel** 10.00 Gwasanaeth Teulu
**Nasareth** 10.00 Rhidian Griffiths
**Rehoboth** Oedfa'r Ofalaeth
**Eglwys Dewi Sant** 11.00 Cymun Bendigaid

20 **Bethel** 5.00 Gweinidog
**Nasareth**
**Rehoboth** 5.00 Parch Elwyn Pryse
**Eglwys Dewi Sant** 11.00 Boreol Weddi

27 **Bethel** 10.00 Gweinidog (C)
**Nasareth**
**Rehoboth** 5.00 Bugail
**Eglwys Dewi Sant** 11.00 Gwasanaeth Teuluol

**Awst**

3 **Bethel** 10.00 Gweinidog (Rehoboth yn uno)
**Nasareth**
**Rehoboth** Uno ym Methel

10 **Bethel** Uno yn Rehoboth
**Nasareth**
**Rehoboth** 10 Beti Griffiths (Bethel yn uno)

17 **Bethel** 10.00 Gweinidog (Rehoboth yn uno)
**Nasareth**
**Rehoboth** Uno Ym Methel

23 **Sioe Tal-y-bont**

24 **Bethel** Uno yn Rehoboth
**Nasareth**
**Rehoboth** 10.00 Gordon McDonald (Bethel yn uno)

31 **Bethel** 2.00 Gweinidog (C)
**Nasareth**
**Rehoboth** Trefniant Lleol

**Medi**

7 **Bethel** 10.00 Gweinidog
**Nasareth** 2.00 Bugail (C)
**Rehoboth** 10.00 Tegwyn Jones

14 **Bethel** 2.00 Gweinidog
**Nasareth**
**Rehoboth** 10.00 Bugail (C)

**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rhian a Catrin, gyda Ceri yn dylunio. Golygyddion mis Medi fydd Rebecca ac Arthur (832093; rebswilliams@yahoo.com) gyda Ceri yn dylunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 5 Medi, a bydd y papur ar werth ar 12 Medi.

pp mehefin 14_Layout 1 11/06/2014 06:52 Page 3

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

Cynhelir
**CYFARFOD BLYNYDDOL**
y Gymdeithas ar nos Iau
26 Mehefin
am 7.30 yn Neuadd Goffa
Tal-y-bont
Croeso cynnes i bawb

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Catrin Mason a Barry Lewis, Dôl Pistyll, ar enedigaeth Caio Llywelyn ar 16 Mai, brawd bach i'r efeilliaid Bleddyn ac Osian. Dathlodd Catrin ben blwydd arbennig hefyd yn ystod y mis. Dymuniadau gorau iddi.

**Pen blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau Nia Evans, Maes-y-Deri gynt ar ddathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau i Ann Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont a fydd yn dathlu pen blwydd arbennig yn ystod mis Mehefin.

**Newyddion 9**
Roedd yn braf gweld Steffan Nutting, Tŷ Hen Henllys, yn cael ei gyfweld ar Newyddion 9, ar Nos Wener 23 Mai, o'r gynhadledd "Anelu at Ragoriaeth" Prifysgol Y Drindod Dewi Sant ar ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth mewn ysgolion. Cafodd Steffan ei ddewis fel siaradwr am y ffilm a wnaeth gyda'r plant yn Ysgol Gynradd Gwenllïan, Cydweli.

**Gwellhád Buan**
Anfonwn ein cofion at Evan Evans, Tynrhelyg sy'n gwella ar ôl cael triniaeth ar ei lygad yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

Braf gweld Rhydian Evans, Neuaddfawr, o gwmpas eto ar ôl rhoi pont ei ysgwydd o'i le. Dal i wella Rhydian.

Gwellhad buan i un o'n golygyddion sef Mair Nutting, Tŷ Hen Henllys sydd adref erbyn hyn ar ôl cael triniaeth yn Ysbyty Bronglais.

Dymuniadau gorau i Dafydd Jenkins, Penpompren Uchaf sy'n gwella ar ôl cael damwain gas i'w law dde. Bu Dafydd am rai dyddiau yn Ysbyty Treforus.

Gobeithio fod Kathleen Richards, Y Bryn, yn teimlo'n well ar ôl bod yn anhwylus yn ddiweddar.

# Pobl a Phethe



## Priodas

Llongyfarchiadau i Eifion Jenkins, Cerrigcaranau, Tal-y-bont a Sara Downes, merch Terry a Jane Downes, Cilcert Uchaf, Bwlchllan ar eu priodas ar 3 Mai. Bu'r gwasanaeth yn Eglwys Sant Ceitho, Llangeitho a chynhaliwyd y wledd briodas ym mwyty'r teulu, Sgubor Teile, Bwlchllan. Pob dymuniad da i'r dyfodol yn eich cartref newydd Wileirog Fach, Borth.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Eilir Owen Huws, Henllan, ar ennill ysgoloriaeth i astudio gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Pob lwc i'r dyfodol i ti Eilir.

**Ar y teledu**
Braf oedd gweld Dr Toby Driver, Cwm-y-glo, Bont-goch yn ymddangos ar y rhaglen hynod ddifyr *Olion: palu am hanes* a ddarlledwyd ar S4C yn ddiweddar.

**Cymorth Cristnogol**
Cyfanswm casgliad Cymorth Cristnogol ym mhlwyf Llangynfelyn eleni oedd £104.55. Roedd y trefniadau yng ngofal Olwen Rowlands, Carys Briddon ac Owen Jenkins.

**Llongyfarchiadau**
Bydd Falyri Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont yn derbyn Gwisg Werdd, Gorsedd y Beirdd mewn seremoni arbennig ar Faes Eisteddfod Genedlaethol Llanelli eleni. Fe'i anrhydeddir am ei chyfraniad arbennig i Gymru, y Gymraeg ac i'w chymuned leol. Llongyfarchiadau mawr iddi.

**Bedydd**
Brynhawn Sul, 18 Mai yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont gyda'r Parch Richard Lewis yn gweinyddu, bedyddiwyd Osian Gwern mab bach Dylan a Ceri Jones ac wyr i Janet ac Alun Jones, Llwynglas. Cafwyd lluniaeth hyfryd yn y Neuadd Goffa i ddilyn yr oedfa.

**Pob Hwyl Kara**
Ar ddiwedd y mis bydd Kara Jones, 10 Maes y Deri, Tal-y-bont yn hedfan draw i Denver, Colorado, America i weithio. Mae Kara wedi cael swydd fel hyfforddwraig pêl-droed i ieuenctid fel rhan o gynllun 'Challenger Sports'. Pob hwyl i ti a gobeithio y gwelwn ni di adre yn Nhal-y-bont dros y Nadolig.

**Symud Tŷ**
Croeso nôl i Dal-y-bont i John a Vicky Evans a'r teulu, sydd wedi symud i fyw i Benaber o Daliesin. Yr un yw'r croeso i Dave Thomas ac Annete Smith sydd wedi symud i fyw i Ddôl Pistyll.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Lynn Ebenezer a'r teulu, 2 Maes y Felin, Tal-y-bont. Ym Machynlleth, bu farw nain i Lynn a hen nain Sam ac Elen.

**Traddodi darlith**
Bu Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont, yn traddodi darlith flynyddol Gymraeg Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion yn Llundain ddechrau mis Mehefin. Ei destun oedd 'T.H. Parry-Williams a helynt y Gadair Gymraeg yn Aberystwyth yn 1919-1920'.

**Beicio**
Llongyfarchiadau i Bryn Dennis, Maes-y-felin, Tal-y-bont am gipio'r wobr 1af mewn ras MTB yn ystod Gŵyl Seiclio Aberystwyth yn ddiweddar.

**EGLWYS ST. PEDR ELERCH**

**GWIN, CAWS A CHÂN**
Côr Meibion y Mynydd
Artistiaid Lleol
Ensemble Cerddorol
Llywydd:
Mrs Gwenda Davies, Pencader
(Cwm-Y-Glo, Bont-Goch)
Nos Wener, 27 Mehefin 2014
7:00pm.
Tocyn: £7.00, Plant: £1.50



pp mehefin 14_Layout 1 11/06/2014 06:52 Page 4

# Rali CFfI



'Y Brenin', Geraint Jenkins ar ei orsedd!




Yr Uwcharwr Talybontiwr Trawsnewidiwr y Tir



Cystadleuaeth Hyrwyddo Elusen



Tynnu Rhaff

# Ysgol Llangynfelyn



Llyfrgell Genedlaethol



Pêl-droed Merched



Amgueddfa Ceredigion



Baton y Frenhines

# Ysgol Llangynfelyn

### Gŵyl Sgiliau'r Ddraig

Aeth disgyblion Dosbarth Miss Jones i astrotyrff y Brifysgol yn Aberystwyth am yr ail Ŵyl Sgiliau'r Ddraig. Cafodd y plant gyfle i flasu amryw o wahanol chwaraeon cyn gorffen gyda gêm pêl-droed fawr yn erbyn yr ysgolion eraill.

### Llyfrgell Genedlaethol

Aeth disgyblion Blwyddyn 6 yr ysgol gyda Blwyddyn 6 ysgolion Tal-y-bont a Chraig yr Wylfa i'r Llyfrgell Genedlaethol i ddechrau eu Prosiect Pontio Ysgol Uwchradd sef 'Aberystwyth'. Bu'r plant yn dysgu am hanes Aberystwyth drwy edrych ar arteffactau gwreiddiol y Llyfrgell gan gynnwys hen bapurau newydd, ffotograffau, lluniau, mapiau a llyfrau. Gwylion nhw ffilm hefyd yn dangos effaith storm fawr 1938 cyn defnyddio i-pads i ddatrys problemau rhif. Bydd y plant yn gweithio ar y prosiect yn yr ysgol, ar y diwrnodau pontio ac hefyd ym mis Medi pan fyddant ym Mlwyddyn 7.

### Pêl-droed Merched

Cafodd merched yr ysgol sesiwn hyfforddi hwyliog iawn yng nghwmni tri hyfforddwr pêl-droed. Bu'r merched yn ymarfer eu sgiliau pêl cyn chwarae gemau bychan yn erbyn ei gilydd.

### Amgueddfa Ceredigion

Aeth Dosbarth y Cyfnod Sylfaen i'r Amgueddfa yn Aberystwyth i gymryd rhan mewn gweithdy 'Hwyl Gyda Ffwng'. Yng nghwmni Alice, curadur yr amgueddfa, buont yn dysgu enwau coed brodorol Cymru, yn didoli dail ac yn darganfod arteffactau pren. Ar ôl hynny, aethon nhw drws nesaf i'r hen siop Boots, i wneud gwaith celf ar ffwng gyda'r artist Louise Short. Buont yn llenwi madarch gyda 'Plaster of Paris' i wneud cerflun arbennig iawn yn dangos tu fewn y madarch. Ar ôl gorffen y gwaith, cerddodd pawb fyny i'r Castell i gael picnic a chwarae yn y parc.

### Gŵyl Beicio

Aeth chwech o ddisgyblion yr ysgol i'r Ŵyl Feicio yn Aberystwyth eto eleni. Cafodd pawb hwyl yn cystadlu yn erbyn llawer iawn o blant eraill o'r ardal. Diolchwn i'r rhieni am fynd â'r plant i gystadlu.

### Baton y Frenhines

Cafodd Harvey Brown ei ddewis, fel Llysgennad Ifanc Chwaraeon yr ysgol, i gymryd rhan mewn gorymdaith Baton y Frenhines ar y Prom yn Aberystwyth. Bu Harvey a chriw o blant eraill ysgolion Cynradd Ardal Aberystwyth yn cerdded tu ôl i'r baton ar hyd y Prom wrth i'r baton gael ei gario gan aelodau ifanc o wahanol Glybiau Chwaraeon yr ardal. Hyfryd iawn oedd gweld Nia Benham o Ysgol Tal-y-bont yn cario'r baton o flaen y plant. Llongyfarchiadau mawr iawn i'r ddau.



Plant, rhieni a ffrindiau Ysgol Llangynfelyn ar fin gadael ar eu ffordd i Borth ar daith noddedig yr ysgol. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cefnogi.

# Tiwtor Gorau



Llongyfarchiadau mawr i Mererid Williams, Cynnull Mawr, Tal-y-bont ar ennill gwobr 'Tiwtor y Flwyddyn Ardal Meirionnydd', o fewn Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru.

Cafodd Mererid eu henwebi gan ei dosbarthiadau yng Nghorris a Thywyn a gaiff eu rhedeg gan Goleg Llandrillo Menai - Meirion Dwyfor. Tasg y criw o feirniaid oedd dewis y tiwtor gorau ar sail yr hyn oedd gan y dysgwyr i ddweud amdanynt a'u llwyddiannau dysgu tu mewn a thu allan y dosbarth yn ystod y flwyddyn.

Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo ym mis Mai yn Y Galeri, Caernarfon. Derbyniodd Mererid dystysgrif, blodau a gwobr ariannol a chyflwynwyd y wobr iddi gan yr awdures Bethan Gwanas. Seremoni oedd hon i ddathlu llwyddiannau dysgwyr unigol, dosbarthiadau cyfan a thiwtoriaid Cymraeg i Oedolion. Dywedodd Mererid ei bod yn ysbrydoledig clywed dysgwyr llwyddiannus yn siarad Cymraeg yn hyderus ac yn dangos cymaint o frwdfrydedd am yr iaith.

Roedd hefyd wrth ei bodd i ddarganfod mai un o'u dysgwyr Cymraeg hi, Mrs Beryl Riley o Gorris Isaf, oedd wedi ennill gwobr 'Dysgwr y Flwyddyn: Lefel Mynediad' yn ardal Meirionnydd.

Mae Mererid hefyd yn dysgu Cymraeg i Oedolion ym Machynlleth ar gyfer Prifysgol Aberystwyth ac yn rhoi gwersi Cymraeg i Oedolion yn y cartref i rai sy'n well ganddynt wersi unigol neu rheiny sydd am gadw eu sgiliau i fynd dros y gwyliau tra bod y dosbarthiadau yn cael seibiant. Mae hefyd yn tiwtora Saesneg a Chymraeg (hyd at lefel TGAU) a Mathemateg (lefel cynradd yn unig) i blant a phobl ifanc yn yr ardal.

# Cymorth Cristnogol Tal-y-bont

Casglwyd fel a ganlyn yn yr ardal gyfan:
Pensarn a Cwm Ceulan (Gwilym Jenkins) £93.30
Stryd y Capel (Falyri Jenkins) £146.44
Maes y Deri (Lyn Ebeneser a Sue Jones-Hughes) £66.13
Gwaelod y Pentref (Lisa Tomos) £139.25
Llew Du i'r Ffald (Bleddyn a Delyth Huws) £33.60
Ardal Bontgoch (Geraint Evans) £105.35
Dol Pistyll a Penlon i'r Plas (Ann Jenkins) £100.42
Ardal Cynnullmawr (David Nutting) £108.62
Pentref Tal-y-bont (Menna Morgan) £114.98
Parsel Henllys (Wendy Watkin a Janet Jones) £119.61
Cyfanswm £1,027.70
Diolch yn fawr i bawb am eu rhoddion ac i'r casglwyr am fod mor barod i fynd o gwmpas i gasglu.
*Gwilym Jenkins Janet Jones*
*Trysorydd Trefnydd*


**UCAC**
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

## CYNORTHWYYDD SWYDDFA

Dyma swydd rhan-amser, tri hanner diwrnod yr wythnos, wedi ei lleoli ym Mhrif Swyddfa UCAC yn Aberystwyth.
Bydd y sawl a benodir yn gyfrifol am gyflawni dyletswyddau swyddfa cyffredinol. Cyflog £12,746 - £13,564 (pro-rata).
Ceir ffurflen gais a manylion pellach o Swyddfa UCAC. Cysyllter ag Elaine Edwards, os dymunwch sgwrs anffurfiol.
Bydd angen dychwelyd y ffurflen gais at **E. Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol, Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, ABERYSTWYTH, Ceredigion SY23 2EU**
erbyn CANOL DYDD, DYDD LLUN 23 MEHEFIN
01970 639950|ucac@athrawon.com
www.athrawon.com

pp mehefin 14_Layout 1 11/06/2014 06:52 Page 6

## Sefydliad y Merched Taliesin

Bu llwyddiant unwaith eto i gangen Taliesin a Sefydliad y Merched wrth i'r Gangen gael y tlws am y cynnydd mwyaf mewn aelodaeth yn 2013. Cyflwynwyd y tlws yng Nghyfarfod Sirol y Mudiad yn Felin-fach ar y 6ed o Fai. Ar yr un noson cyhoeddwyd bod Josie Smith wedi ennill bwrsari i astudio cwrs o'i dewis yng Nghanolfan Addysg y mudiad yng Ngholeg Denman. Edrychwn ymlaen at glywed am ei phrofiad yn gynnar flwyddyn nesa' a llongyfarchiadau iddi.

Dr Brian Davies o Aberystwyth oedd ein gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Mai. Arbenigwr mewn astudiaeth o liwiau naturiol oedd ei bwnc a thrwy gyfrwng rhaglen PowerPoint esboniodd ddatblygiad lliwiau naturiol drwy'r canrifoedd. Noson wych a hynod ddiddorol. Diolchwyd iddo gan ein llywydd Beti Wyn. Ann Humphreys a Val Walsh oedd yng ngofal y te a'r cacennau blasus ar ddiwedd y cyfarfod.

Mewn is-bwyllgor, 'rydym wrthi'n trefnu ein Sioe Ffasiynau fydd yn cael ei chynnal yn Neuadd Tal-y-bont ar nos Sadwrn, 27 Medi. Eisoes mae posteri a llythyron wedi'u dosbarthu i holl fudiadau lleol er mwyn rhoi cyfle i ferched lleol yn y lle cyntaf i brynu tocynnau.

Ar ddydd Sadwrn ola'r mis cynhaliwyd gweithdy ffeltio arall yn y Llanfach i drosglwyddo'r grefft o greu potiau ffelt a cherrig y môr wedi ffeltio. Beti Wyn oedd yn hyfforddi'r grŵp a chafodd pob un hwyl a llwyddiant wrth greu eu darn unigryw.

Ymweliad i Ganolfan y Gweilch fydd ein cyfarfod mis Mehefin.


**Y LLEW GWYN**
**TAL-Y-BONT**
Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
**Ar agor bob dydd**
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50
**Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00**
**(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)**
Ystafelloedd ar gael
**01970 832245**
**whitelionhotel1@btconnect.com**

**Ioga**
Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.
Pris £5.00
Cysylltwch a
**Sue Jones-Davies**
**01970 624658**

**Afiaith**
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

STORFA CARTREF a BUSNES
Storio Hyblyg Diogel
*Ystafelloedd storio i siwtio eich gofynion*

TCC a Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi Gynhesu
*Ar Werth*
*Bocsys, Bwrlwm Lapio a deunydd pacio*
Ymwelwch â'r siop arlein
www.boxshopsupplies.co.uk
www.midwalesstorage.co.uk
MID WALES STORAGE
STORFA CANOLBARTH CYMRU
Ffon—01654 703592
Heol y Doll, Machynlleth, Powys, SY20 8BQ


## Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn

I lawer ohonom, roedd Hanes yn yr ysgol yn ddim mwy na rhestr o frenhinoedd a brwydrau a dyddiadau, i gyd ymhell i ffwrdd neu ymhell yn ôl. Erbyn hyn, mae plant yn dysgu bod hanes ein pentrefi ni yn llawn o bobl gyffredin, tebyg iawn i ni.

A dyna beth gafodd aelodau'r Gymdeithas hon ar Fai 27ain yng nghwmni y Parchg. W. J. Edwards – taith o gwmpas y gymuned, Taliesin, Llangynfelyn a Thre'r-ddôl ('rownd y glôb' i'r gwybodusion) tua 70 mlynedd yn ôl. Wedi'i fagu yn Stryd Isa, Taliesin, mae Billy yn nabod ei fro, a chawsom gwrdd â thrigolion bron bob tŷ yn yr ardal, rhai o serchus gof, a gan eu bod yn bobl o gig a gwaed, ambell un â'r atgof ohonynt ddim cweit mor serchus. Cawsant i gyd eu cyflwyno yn null unigryw Billy ei hunan. Llawer o ddiolch iddo. Noson i'w chofio yn wir.

Bydd y cyfarfod nesaf, a'r olaf o'r tymor, ar Fehefin 24ain am 7.30 yn Llanfach, pryd y bydd Barbara Walker yn parhau a'i hatgofion o Dderwenlas. Croeso cynnes i bawb.

## Ysgol Sul Bethel

Cynhaliwyd gwasanaeth i Ysgolion Sul yr ardal, fore Sul y Gymanfa ar 11eg Mai ym Methel, Stryd y Popty, Aberystwyth. Thema'r gwasanaeth oedd 'Agor y Llyfr'. Diolch i Becca, Dyfri, Efa, Glain, Heddwyn a Miri am roi'r emyn allan mor raenus a chlir.

Rydym fel Ysgol Sul yn falch iawn hefyd o ddwy o'n haelodau sef Catrin a Betsan a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Bala.

**Ffrindiau Cartref Tregerddan**
**Barbeciw yn y cartref**
Nos Wener 20 Mehefin 2014
am 6:30 o'r gloch
Croeso Cynnes i bawb



## Eglwys St. Pedr, Elerch

Mae wedi bod yn braf iawn cael croesawu'r Parchg Andrew Loat, offeiriad â gofal dros blwyfi Llanbadarn Fawr, Elerch, Penrhyn-coch a Chapel Bangor i'n plith. Sefydlwyd ef mewn gwasanaeth arbennig yn Llanbadarn Fawr ar yr 8 Mai a dyma lun ohono yn gwasanaethu yn Eglwys Elerch ar Ddydd Sul, 1 Mehefin.


*Rhian*
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes
**Plymio a Gwresogi**
**Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi**
**Gwasanaeth Boeler Olew**
01970 832129
07761 917235

argraffu da
*am bris da*

y Lolfa
holwch Paul am bris ar **paul@ylolfa.com**
01970 832 304 **www.ylolfa.com**

pp mehefin 14_Layout 1 11/06/2014 06:52 Page 7

## Merched y Wawr, Tal-y-bont a'r Cylch

### Creu Coronau

Yng nghyfarfod mis Ebrill o'r gangen cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni John Price o Fachynlleth. Nid yw Merched y Wawr yn ddieithr i John wrth gwrs, gan i'w wraig Mary fod yn Llywydd Cenedlaethol y Mudiad yn y gorffennol. Cyflwynwyd y gŵr gwâdd gan Megan Mai a oedd yn cofio amdano fel athro gwaith metel yn Ysgol Uwchradd Machynlleth rai blynyddoedd yn ôl bellach. O'r gwaith hwnnw y datblygodd John ddoniau arbennig yn cynllunio a saernïo coronau eisteddfodol ac erbyn hyn mae wedi llunio 6 choron ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn ogystal â nifer dirifedi o goronau ar gyfer eisteddfodau taleithiol megis Eisteddfod Powys, Eisteddfod Môn a'u tebyg. Ar Ynys Môn y bu dechrau'r daith ac yno hefyd y dechreuodd ei sgwrs wrth iddo adrodd hanes ei fagwraeth. Soniodd sut y cafodd wahoddiad i lunio'i goron gyntaf ac aeth yn ei flaen i esbonio, gyda chymorth lluniau, y broses o 'greu coron'. Dibynna'r bardd buddugol ar deithi'r awen i'w ysbrydoli a thebyg iawn yw dechrau'r gwaith o safbwynt gwneuthurwr y goron yntau. Cafwyd gan John esboniad llafar a gweladwy o'r broses gyfan, gan egluro'r drefn gam wrth gam o frasluniau, i'r cynllun terfynol ac yna'r goron orffenedig o arian gyda 'chap' mewnol o ddefnydd melfed wedi'i wnïo gan Mary. Eto'i gyd nid trosglwyddo'r goron orffenedig i bwyllgor gwaith yr eisteddfod yw'r cam terfynol, ond mae un weithred gyfrinachol i'w chwblhau ar ddiwrnod y coroni. Disgrifiodd John y ffordd y caiff ei alw, ar ddydd Llun yr Eisteddfod Genedlaethol i fynd yn llechwraidd i Swyddfa'r Trefnydd i gwrdd â'r bardd buddugol i sicrhau fod y goron yn ffitio'n gywir. Diolchwyd i John Price am noson ddiddorol gan Aileen Williams, a oedd yn gydweithiwr iddo yn yr ysgol uwchradd ym Machynlleth. Trefnwyd y noson gan Aileen a Megan a hwy hefyd oedd yn gyfrifol am y baned.

## Dynes Fformiwla 1

Y mis diwethaf, clywson ni am hanes Kyle Rowlands yn cael ei dewis gan gwmni Michelin i dderbyn hyfforddiant arbenigol – wel, mae ei chwaer Kimberley, gynt o Dal-y-bont ac yn wyres i Mignon Rowlands, Glanhaul, Tre Taliesin, hefyd wedi cael amser cyffrous iawn ym myd ceir yn ddiweddar. Ar ôl iddi basio ei phrawf gyrru ynghynt eleni (llongyfarchiadau Kimberley!), aeth hi i weithio i Dîm Fformiwla 1 – na, nid fel gyrwraig ond fel gweinyddes! Dim ond ym mis Mawrth y dechreuodd hi yn y gwaith, ond mae hi eisoes wedi teithio i bedwar ban byd gyda'r tîm, er enghraifft, Sbaen, Awstralia, Malaysia, Shanghai, Monaco a Montreal yng Nghanada, ac Awstria fydd ei chyrchfan nesa. Nyrs oedd Kimberley cyn hyn ond roedd hi'n teimlo fel rhoi cynnig ar rywbeth hollol wahanol. Hyd yn hyn, mae wrth ei bodd â'r gwaith ac wedi cwrdd â phob math o bobl diddorol. Rydyn ni'n edrych ymlaen at glywed mwy Kimberley.

## Elin Jones AC – O'r Cynulliad



Mae'r ymgyrch i gynnal a gwella gwasanaethau iechyd yng Ngheredigion yn parhau – ac yn wir mae fel petai'n frwydr ar sawl ffrynt ar hyn o bryd!

Yn Aberteifi, mae yna gais wedi ei roi ger bron y Llys am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad i gau gwelyau yn yr ysbyty. Un ffactor allweddol yw fod y Bwrdd Iechyd heb gynnal ymgynghoriad llawn gan ddadlau nad oedd newid 'sylweddol' yn y gwasanaethau. Dydy hyn ddim yn ymddangos yn deg i mi, ac rwy' wedi bod yn cydweithio efo'r cyfreithiwr arbenigol sy'n paratoi'r achos.

Yn Nhregaron, cynhaliais gyfarfod yn ddiweddar gyda'r Cyngor Sir a'r Bwrdd Iechyd am ddatblygiad Cylch Caron. Mae'n hollbwysig fod y datblygiad yma yn cwrdd ag anghenion y gymuned. Mae potensial i hyn fod yn bositif iawn i ofal iechyd a chymdeithasol yng Ngheredigion, ac mi fyddaf yn parhau i gadw golwg manwl ar sut y mae'r cynllun yn mynd rhag blaen.

Yn achos Ysbyty Bronglais, y prif bryderon ar hyn o bryd yw gwasanaethau mamolaeth a thriniaeth y galon. Ry'n ni'n gwybod am dueddiad y Bwrdd Iechyd i fod eisiau canoli yng Nghaerfyrddin, ond mewn ardal wledig, mae'n rhaid ystyried pellter y gwasanaethau. Dyna pam y sefydlwyd grwp ymchwil gan Lywodraeth Cymru i ystyried dyfodol hir-dymor Bronglais a'i dalgylch, ac mae'n allweddol nad oes penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud cyn i'r ymchwil hynny ddod i ben. Holais y Prif Weinidog ar y mater yma yn ddiweddar, a chytunodd na ddylai fod unrhyw ganoli o wasanaethau'r galon heb ymgynghoriad llawn nac ystyriaeth i ganfyddiadau'r grŵp ymchwil. Mae gan wasanaethau'r galon ym Mronglais enw da iawn, ac mae'n rhy bwysig i'w golli.

Yng nghanol yr ymgyrchu, mae hefyd cyfleon i ddathlu talentau lleol ar eu gorau. Braf oedd gweld llwyddiant cynifer o bobl ifanc Ceredigion yn Eisteddfod yr Urdd yn y Bala. Rwy' hefyd yn edrych ymlaen at weld tîm Cymru yn cystadlu yng ngemau'r gymanwlad yn Glasgow dros yr haf, ac roedd ymweliad y 'baton' â Cheredigion, yn ogystal â'r rasys beicio yn Aberystwyth sy'n mynd o nerth, yn ein atgoffa fod haf prysur o chwaraeon ar y gorwel.


Bistro
Gannets



Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y Fframdy
Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.
Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

GOLCHDY LLANBADARN



CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON
JEAN JAMES
Ffôn: 01970 612459
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL

Garej Davmor
- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig
Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont
01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

pp mehefin 14_Layout 1 11/06/2014 06:52 Page 8

# CFFI Tal-y-bont – Y Rali

Yn dilyn gwesteio'r Rali yma yn Nhal-y-bont flwyddyn yn ôl braf oedd cael dychwelyd i'r cystadlu eleni! Cynhaliwyd y Rali gan Glwb Llanwenog ar dir fferm Llechwedd, Brynteg, Llanybydder ar ddydd Sadwrn, 7 Mehefin gyda'r cystadlu yn dilyn y thema Arwyr. Yn dilyn diwrnod brwd o gystadlu ymysg aelodau'r Sir, llwyddodd Tal-y-bont i ddod yn gydradd bedwerydd.

Cafodd Geraint Jenkins, Cerrigcaranau ddiwrnod tu hwnt o brysur ac roedd yr aelodau'n falch iawn o'i weld yn cael ei anrhydeddu fel Ffarmwr Ifanc y Flwyddyn yn ystod y Seremoni Goroni. Roedd yn smart ryfeddol ac i'w weld wrth ei fodd yng nghanol y merched ar y llwyfan!! Cyflwynwyd llun o ardal Tal-y-bont iddo fel anrheg gan y clwb i nodi'r achlysur.

Un o'r cystadleuthau eleni oedd mynd ati i ddylunio a chreu uwcharwr newydd. Y rhai fu wrthi'n creu oedd Gareth Jenkins, Ynyseidiol, Anwen Jenkins, Tynygraig a Glesni Morgan, Pwllglas a greuodd Talybontiwr Trawsnewidiwr y Tir gan gipio'r ail wobr a bron a dod i'r brig.

Daeth Geraint Jenkins, Cerrigcarannau, Rhys Richards, Clap-y-cripiau, Steffan Nutting, Tŷ Hen Henllys a Dafydd Thomas, Eisteddfa yn ail agos yn y gystadleuaeth Hyrwyddo Elusen. Aethant ati i hyrwyddo Ambiwlans Awyr Cymru drwy greu taflen a thrwy berfformiad 10 munud.

Dewi Jenkins, Tynygraig a Rhys Richards, Clap-y-cripiau fu'n cynrychioli'r clwb yn y gystadleuaeth Gneifio a llwyddodd y ddau i gipio'r cwpan am y tîm gorau. Bu Gwion Evans, Tanllan yn cystadlu fel unigolyn dan 21 oed gan gipio'r wobr 1af a bydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Sir yn y Sioe Frenhinol. Daeth Dewi yn 2il a Llyr James, Penbanc yn 3ydd o dan 21. Roedd Rhys Richards yn 3ydd o dan 26 oed.

Daeth Tal-y-bont yn bedwerydd yng nghystadleuaeth y Tablo ar y thema 'Arwyr' gan gyfleu arwyr go iawn y frigad dân, y parafeddygon a'r ambiwlans awyr. Mentrodd dau dîm o'r clwb gystadlu ar y Tynnu'r Gelyn yn erbyn bechgyn profiadol Llanwenog gan gipio'r 2il a'r 3edd wobr. Pe byddai rhain yn ymarfer fe fydde nhw'n fois peryg!

Bu'r aelodau'n cystadlu'n frwd yng nghystadlaethau barnu stoc y Rali. Ar y barnu Moch Cymreig daeth Geraint Jenkins, Penpompren yn 5ed o dan 26 oed a Geraint Jenkins, Cerrigcaranau yn cystadlu fel unigolyn yn 6ed a Dewi Jenkins, Tynygraig yn 2il o dan 21. Daeth Jac Jones yn 4ydd o dan 16 oed a Bedwyr Siencyn, Tanrallt oedd yn cystadlu fel unigolyn o dan 16 yn 2il. Daeth tîm Tal-y-bont yn 3ydd.

Yn y gystadleuaeth barnu Gwartheg Holstein daeth Geraint Jenkins, Cerrigcaranau yn 4ydd o dan 26 a Geraint Jenkins, Penpompren yn cystadlu fel unigolyn yn 6ed. Cipiodd Llyr Jones, Felinhen y 6ed safle o dan 21 a Gwenno Evans, Tanllan yn 5ed o dan 16. Daeth tîm Tal-y-bont yn 5ed.

Yn y gystadleuaeth Barnu Defaid Charollais daeth Rhydian Evans, Neuaddfawr yn 4ydd o dan 26, Gwion Evans, Tanllan yn 4ydd o dan 21 oed a Gwenno Evans, Tanllan yn 6ed o dan 16. Llwyddodd Dewi Jenkins, Tynygraig oedd yn cystadlu'n unigol i gipio'r 3ydd wobr o dan 21 oed.

Hoffem longyfarch yr holl aelodau fu'n cystadlu a chydnabod cymorth a chefnogaeth yr arweinyddion, cyn aelodau, rhieni a ffrindiau'r clwb fu'n helpu gyda'r hyfforddi a'r paratoi. Edrychwn ymlaen yn barod at Rali Llanddewi Brefi yn 2015.





Gwesty'r Llew Du
Black Lion Hotel
BWYDLEN HAF NEWYDD!
AR AGOR:
MERCHER – SADWRN
12.00 – 2.30 / 6.00 – HWYR
SUL 12.00 – 3.00
01970 832 555
gwestyllewdu.com


# Ysgol Tal-y-bont

## Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i Glain Llwyd Davies am fod yn aelod o'r Parti Cerdd Dant buddugol i Adrannau Blwyddyn 6 ac iau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mae Glain yn aelod brwdfrydig o Adran Tref Aberystwyth.

Ar ran pawb sy'n gysylltiedig ag Ysgol Tal-y-bont hoffwn ddymuno llongyfarchiadau mawr i Nia Benham ar ei llwyddiant wrth gipio'r wobr gyntaf yn yr unawd chwythbrennau Blwyddyn 6 ac iau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Meirionnydd. Penderfynodd berfformio dehongliad o'r hen gân werin 'Migldi Magldi', ac mae'n deg nodi fod y safon eleni'n uchel iawn. Ond, yn ôl y beirniaid, Nia oedd orau a mawr oedd y dathlu ar y maes. Hoffai'r ysgol a'r teulu ddiolch yn fawr i Neli Jones ac i Falyri Jenkins am eu cymorth yn paratoi a chyfeilio i Nia tra bod eu hathrawes arferol, Melanie'n sâl.

## Llysgenhadon Efydd

Mae dwy o ferched Ysgol Tal-y-bont wedi bod yn gweithio'n galed iawn fel Llysgenhadon Efydd yn ystod 2014. Nia a Tia yw ein llysgenhadon yma ac maent wedi bod yn trefnu gweithgareddau chwaraeon bob amser cinio dydd Llun i holl blant yr ysgol. Mae eu swyddogaethau yn cynnwys hyrwyddo gwerthoedd Olympaidd a Pharalympaidd ac annog ffrindiau i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn yr ysgol ac ar ôl ysgol. Mae'r plant hefyd wedi bod mewn gweithgareddau chwaraeon a drefnwyd gan yr Adran Chwaraeon yr Adran Addysg yn gysylltiedig â'r cynllun.

**John Jenkins, Aberceulan**

Trist oedd clywed am farwolaeth John Jenkins, Aberceulan, Tal-y-bont yng Nghartref Plas Cwmcynfelyn ar yr 2 Mehefin yn 89 mlwydd oed. Un o blant Tal-y-bont oedd John ac yng Nghwm Road y bu dechrau'r daith. Treuliodd ei oes yn byw ac yn gweithio fel plastrwr yn yr ardal hon ac adeiladodd gartref cysurus iddo ef a'r teulu yn Aberceulan ar safle hen garej.

Bu'n aelod o'r fyddin yn ystod yr Ail Ryfel Byd a dioddefodd glwyfau difrifol yn 1944. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf a'i briod Maureen a'i feibion Christopher ac Andrew a'u teuluoedd, y ddau bellach yn byw yn ardal Abertawe.

**Miss Peggy Evans (Rhiwlan gynt)**

Yn dawel yng Nghartref Plas Cwmcynfelyn ar 6 Mehefin, bu farw Peggy Evans, Rhiwlan gynt a hithau ond wedi bod yno am rai dyddiau. Roedd yn 101 oed a byddai wedi dathlu ei phen blwydd yn 102 ym mis Awst eleni. Fe'i ganwyd yn Llundain ble roedd ei thad yn rhedeg busnes ac yno y treuliodd ei blynyddoedd cynnar. Dychwelodd i Dal-y-bont gyda'i rhieni a'i chwaer Dora ac yn 1935 adeiladwyd Rhiwlan. Bu'n byw yno weddill ei hoes cyn mynd i Gartref Tregerddan, Bow Street rai blynyddoedd yn ôl. Yn dilyn damwain yn ddiweddar treuliodd gyfnod yn Ysbyty Bronglais.

Ar ôl gweithio fel Ysgrifenyddes yn y Brifysgol yn Aberystwyth bu hi a'i chwaer yn gofalu am eu rhieni a modryb oedrannus. Fe gofiwn am y ddwy yn cerdded milltiroedd o amgylch yr ardal a chwith iawn iddi oedd colli Dora yn 1995. Er nad oedd yn rhugl yn y Gymraeg bu'n gefnogol iawn i bob dim o fewn ei chymuned ac yn aelod ffyddlon o Gapel Bethel.

# Eisteddfod yr Urdd

Rhaid llongyfarch disgyblion talentog yr ardal a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Y Bala. Llongyfarchiadau i Catrin Eleri Huws, Henllan, Tal-y-bont am gipio'r 2il wobr ar yr Unawd Telyn, Blynyddoedd 7-9. Roedd Medi Evans, Neuaddfawr yn aelod o'r grŵp buddugol o Ysgol Gyfun Penweddig a gipiodd y wobr 1af ar y Ddawns Cyfansoddiad Creadigol Blwyddyn 7 ac o dan 19 oed. Llongyfarchiadau hefyd i Sam Ebenezer ar gipio'r 3edd wobr am ganu Unawd o Sioe Gerdd 19-25 oed.

# Ysgol Tal-y-bont



Glain Llwyd Davies



Nia Benham



Llysgenhadon Efydd




## Slap, Clap a'r Llo

Ydych chi wedi mynnu eich copi o'r ffilm arbennig, Slap, Clap a'r Llo a gynhyrchwyd gan C.Ff.I Tal-y-bont ar gyfer cystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Sir? Y pris yw £10 ac mae nifer cyfyngedig dal ar gael. I archebu DVD cysylltwch â Geraint Jenkins ar 07533595710 / geraintcaran@hotmail.co.uk neu a Dewi Jenkins ar 07894718546 / Dewjenks@hotmail.co.uk

## Parti Canol Haf!

Mae Siop Cynfelyn yn dathlu Canol Haf gyda pharti yn Blaeneinion, cartre'r afancod (beavers) i ddweud diolch wrth ei holl wirfoddolwyr, staff a chwsmeriaid. Cynhelir y parti ddydd Sadwrn, 21 Mehefin o 4pm tan yr hwyr.

Bydd cyfle i gerdded o gwmpas yr ardd goedwig; i weld y coetir bwytadwy, i ddysgu am biomas, i ymweld â'r gerddi llysiau, a'r twnelau polythen. Bydd barbeciw, a chyfle i weld yr afancod gyda'r nos a thân agored. Mae croeso cynnes i bawb ddod â cherddoriaeth, straeon, caneuon, cerddi, eich hoff fwyd barbeciw a seigiau i'w rhannu. Bydd digon o le i chwarae a phadlo! Mae lle i wersylla dros nos neu gellir llogi'r 'stafell deulu. Digwyddiad am ddim yw hwn, ond dewch a'ch hoff fwyd barbeciw gyda chi! Os ydych am wersyllu neu aros dros nos rhowch wybod i Flaeneinion ymlaen llaw – fe fyddwn ni'n gofyn am gyfraniad bach.

Am ragor o fanylion cofiwch ofyn i aelod o staff yn y Siop neu ffoniwch 01970 832113. Fel arall ymunwch â Grŵp Blaeneinion ar Facebook. Os oes unrhyw un eisiau, neu gynnig lifft, mae poster a'r fwrdd hysbysfwrdd y siop, neu cysylltwch ar Facebook.



## Betty ar y brig

Llongyfarchiadau i Betty Jenkins, aelod o Gangen Tal-y-bont o Ferched y Wawr ar ei llwyddiant efo'i gwaith crefft yn ystod mis Mai. Enillodd ddwy wobr gyntaf yng Ngŵyl Fai Ceredigion - y naill am wneud eitem newydd o hen ddeunydd a'r llall am orchudd i "kindle" tabled neu lyfr. Yna yn yr Ŵyl Haf Genedlaethol yn Machynlleth cafodd y drydedd wobr am wneud clustog.



## Byd y Beics

Gwnaeth yr ardal droi yn fyd o feics dros benwythnos Gŵyl Banc y Gwanwyn - roedd yna rywbeth i bawb fel rhan o bumed ŵyl Seiclo Aberystwyth.

Bu beicwyr proffesiynol yn rasio am y gorau o amgylch strydoedd Aberystwyth ar y nos Wener fel rhan o'r *Pearl Izumi Tour Series.* Cyn hynny roedd yna gyfle i blant, pobl ifanc ac oedolion ddangos eu doniau gyda chystadleuaeth '*Town versus Gown*'.

Ar y dydd Sadwrn beicwyr mynydd oedd yn carlamu lawr 'Consti' lle roedd angen cymysgedd o sgil, dienedeiddrwch a fawr iawn o barch at eich iechyd personol er mwyn llwyddo! Roedd y rhai tua'r brig yn gwneud y daith o'r copa i'r prom mewn llai na 90 eiliaid!

Gwnaeth dros 450 o feicwyr gymryd at her y Corach (26 milltir), Y Mynach (70 milltir) a'r Cawr (114 milltir) fel rhan o'r *Sportive* ar y dydd Sul a braf iawn cofnodi fod yna amryw o drigolion ardal Papur Pawb yn eu mysg! Roedd yn fore hyfryd ac yn hysbyseb fendigedig i'r ardal – roedd yn arbennig clywed y rhai oedd yn cymryd rhan, o bell ac agos, yn canmol y golygfeydd godidog wrth agosau tuag at y bwlch ar ben Cwm Ceulan. '*We don't have hills like this in Sussex*' meddai un gŵr drwy anadl drom wedi esgyn fyny'r cwm!

Rydym yn ffodus iawn bod ein ardal yn cynnig cymaint i seiclwyr. Mae hyn wedi eu gyplysu â dyhead pobl i fyw bywyd iachach wedi cyfrannu heb os at y twf sylweddol sydd wedi bod yn niferoedd y bobl o bob oedran sydd erbyn hyn yn seiclo'n gystadleuol, am hwyl neu fel ffordd rhad o deithio.

Mae digwyddiad o'r fath yn rhoi hwb sylweddol i'r economi leol gyda darparwyr llety a lletygarwch a gwasanaethau eraill i gyd yn gweld budd. Yn bendant roedd y seiclwyr lleol yn falch iawn o gael ad-ennill yr hylif a gollwyd tra ar y beic yn y ddau Lew ar ôl gorffen! Dylid nodi mai gwirfoddolwyr lleol sy'n ymgymryd â'r gwaith o wneud yr holl drefniadau, sy'n dipyn o gamp yn ei hunan. Gobeithio wir bydd yr ŵyl yn mynd o nerth i nerth.

*Gerwyn Jones*

pp mehefin 14_Layout 1 11/06/2014 06:52 Page 10



# Carreg Erglodd

Er imi ddweud yn rhifyn Mawrth y byddai ymyrryd â'r hen garreg neu ei symud yn dod â'r byd i ben, ni ddigwyddodd hynny. Mewn fersiwn arall dywedid fod dwy garreg yn sefyll yng nghae Ynys Angharad a phan ymddangosai'r drydedd byddai diwedd y byd yn ymyl. Gyda llaw, roeddem wedi cael ein rhybuddio gan athrawon Ysgol Llangynfelyn i beidio ymyrryd â charreg fawr Bedd/Gwely Taliesin. Byddai anufuddhau yn arwain at storm enbyd a diwedd byd! Rywdro ar ôl fy nghyfnod yn hel tatws i Ddafydd Jenkins ddiwedd y 1940au symudwyd y garreg i fod yn rhan o'r wal-ffordd o flaen y ffermdy, ac yno y bu hyd nes chwalwyd y wal gan gar rai blynyddoedd yn ôl wedi i Huw, Mair a Susan Rowlands, ymsefydlu yno. Dylem ddiolch iddyn nhw am lanhau a diogelu'r garreg a rhoi lle anrhydeddus iddi y tu ôl i'r tŷ.

Yn 'Arweiniad i Hanes a Diogelu ein Treftadaeth Mwyngloddio Metel', yn ymyl llun y garreg dyma ddywed Simon Hughes amdani: 'Carreg Angharad Fychan yn Erglodd, 'carreg bwcio' gynhanesyddol a gynhwyswyd yn rhan o wal gerrig'. Dan y pennawd 'Mwynwyr Cynnar', dywedir, 'Cloddiwyd gweithfeydd mwyngloddio'r Oes Efydd (am aur neu gopr fwy na thebyg) sydd wedi dyddio i tua 2000 C.C, ym Mryn Copa, Cwmystwyth, lle darganfuwyd offer fel morthwylion cerrig a cheibiau cyrn ceirw. Mewn safleoedd mwyngloddio eraill darganfuwyd morterau cerrig hynafol a elwir yn 'gerrig bwcio', a ddefnyddiwyd i chwalu a golchi mwynau'.

Go brin fod Dafydd Jenkins yn ymwybodol o hanes y garreg neu fe fuasai wedi sôn wrthym am ei hynodrwydd. Cred ei nai William John iddo ddod i Erglodd tua 1917 ar ôl iddo briodi Elizabeth Owen, merch fferm Cefn-crib, Pennal. Gan iddi farw ym 1940 ni chofiaf mohoni, ond rwy'n cofio fod Dafydd yn galw ambell wraig i baratoi bwyd i ni yr helwyr tatws. Roedd hefyd yn cyflogi rhai o'm cyfoedion yn weision ifanc, megis y diweddar Wmffre Roberts, un o fechgyn Taliesin fel finnau. O sôn am hel tatws rwy'n cofio fod y criw wedi cael mynd un tro yn lori Jac Ynystudur (tad Carys Briddon) i hel tatws mewn fferm arall o'i eiddo, Llwyngronfa, yn ymyl Melinbarhedyn, ac Aberhosan. Doeddwn ddim yn sylweddoli ar y pryd fod Mary fy mam-gu, un o 14 plentyn Richard a Margaret Breese, wedi byw yno cyn symud wedyn i Danllan, Darowen.

Am fod yr hen Ddafydd yn gloff byddai'n dibynnu ar ei gar a phoni i fynd i bobman gan gynnwys capeli Nasareth a Rehoboth. Pan fyddai wedi anghytuno â Gweinidog a chyfeillion Nasareth deuai am gyfnod i Rehoboth nes byddai anghytundeb yn ei yrru yn ôl i Dal-y-bont. Un stori a glywais droeon oedd yr un am y bore Sul pan oedd cyhoeddwr Nasareth yn llongyfarch Dr. Gareth, mab Harri Evans Prifathro Tal-y-bont a'i briod, ar gael gradd dosbarth cyntaf mewn mathamateg yng Ngholeg Peterborough, Caer-grawnt. Gwaeddodd Dafydd o'i sedd: 'Mae eisie llongyfarch teulu Watkins, Tŷ Hen hefyd, am ennill y wobr gyntaf gyda'r tarw mewn sioe bwysig'! Nodweddiadol o ŵr Erglodd, meddai'r bobol. Cofiwn i'n cyfaill hoff Gareth gael gyrfa ddisglair fel darlithydd yn Abertawe, ac mai ef a safodd gyntaf dros Blaid Cymru yng Ngheredigion, ym 1959 a 1964.

Llithrodd sawl car ar drofa Erglodd a mynd drwodd i'r cae. Tua thrigain mlynedd yn ôl roedd John Oliver, Glandyfi,yn cael ei gario ym modur ei gyfaill Arthur Morgan, Pwll-glas, pan aeth y cerbyd ar ei ben i'r cae a John wedi codi o'i sedd ac yn ofni'r gwaethaf, yn gweiddi, 'Arglwydd Mawr, ryden ni'n dod atat ti'n deirect!'

*W.J. Edwards*



## Merched y Wawr

Ar 19 Mai cafwyd noson ddifyr iawn yn ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol. Fe'n croesawyd gan Emyr Jones aelod o staff y Llyfrgell ac wedi gwylio ffilm fer yn dangos gwaith y sefydliad fe'n tywyswyd ganddo o gwmpas yr adeilad. Cawsom gyfle i weld rai o'r gwrthrychau sydd wedi eu harddangos ac i edmygu'r bensaerniaeth. Cawsom hefyd y fraint o fynd tu ôl i'r llenni i weld y storfeydd enfawr lle cedwir miloedd ar filoedd o lyfrau, mapiau, gweithiau celf a deunydd arall. Roedd pawb wrth eu bodd yn cael y cyfle i werthfawrogi rai o'r portreadau a'r darluniau ac i weld un o'r mapiau cynharaf – deunydd nad sy'n cael ei ddangos i'r cyhoedd yn aml iawn. I orffen y noson cawsom gyfle i weld dwy arddangosfa sy ymlaen yn y Llyfrgell ar hyn o bryd. Arddangosfa o waith y ffotograffydd Marian Delyth oedd y gyntaf – arddangosfa sydd yn dathlu oes o ymroddiad i ffotograffiaeth ac sy'n cynnwys 60 o luniau o'i dewis personol hi. Yr ail arddangosfa oedd un yn dathlu un o brif drysorau'r llyfrgell sef Llawysgrif Hengwrt o Chwedlau Caergaint gan Chaucer. Ar ddiwedd y noson roedd pawb o'r farn ein bod wedi cael noson ddiddorol tu hwnt ac yn ddiolchgar i Emyr Jones am ei groeso.



## Y Sialens Geltaidd

Bob yn ail flwyddyn cynhelir y Sialens Geltaidd, sef ras rwyfo o Arklow ar arfordir dwyreiniol Iwerddon i Aberystwyth. Eleni fe'i cynhaliwyd ar benwythnos Gŵyl y Banc, 2-5 Mai. Yn y llun gwelir aelodau o dîm cymysg Aberystwyth, yn eu plith yr hen bennau Mick a Jenny Fothergill, Minafon, Tal-y-bont a Dai Dowsett, Is-y-coed, Tal-y-bont a Ben Fothergill a'i wraig Rachel a Cian Dowsett. Roedd Carol Davies, Tre'r Ddôl (Maesnant gynt) yn cymryd rhan yn y ras hefyd ac yn rhwyfo gyda thîm Llangrannog. Bu Carol a Mick yn aelodau brwdfrydig o'r pwyllgor trefnu yn ogystal.


CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

TEIARS HUW LEWIS TYRES

HUWLEWISTYRES.COM

Glanyrafon

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221



## Her 3 Chopa Canolbarth Cymru

Ddydd Sadwrn 28 Mehefin bydd criw o Dal-y-bont, Bow Street a Llandre yn cymryd rhan yn Her 3 Chopa Canolbarth Cymru. Bydd y tîm yn un o nifer o dimau a fydd yn ceisio cerdded i gopaon Pumlumon Fawr, Cadair Idris ac Aran Fawddwy o fewn diwrnod, er budd Apêl Fflur. Nod y tîm – sef Nia Peris, Anwen Pierce, Anita Saycell, Martyn Saycell a Geraint Williams – yw casglu o leiaf £500 at yr apêl.

Cafodd Fflur Fychan, mam i dri o blant o ganolbarth Cymru, ei tharo'n sydyn gan gyflwr niwrolegol anghyffredin o'r enw Transverse Myelitis a'i parlysodd o'i brest i lawr dros nos. Er bod rhai cleifion yn gwella o'r cyflwr hwn heb effeithiau tymor hir gall eraill ddioddef niwed neu wendid parhaol. Mae Fflur yn un o'r achosion eithafol ac er ei bod yn ddibynnol ar gadair olwyn mae hi am wneud pob peth sy'n bosib i wella o'r sefyllfa hon.

Nod Apêl Fflur yw codi arian ar gyfer triniaeth o weithgaredd gorfforol reolaidd arbenigol, fydd yn sicrhau'r gwaith hanfodol o gynnal ei ffitrwydd, iechyd corfforol a meddyliol a'i gallu i fyw mor annibynnol â phosib.

Mae'n bosibl ichi weld stori Fflur mewn rhaglen arbennig yn y gyfres O'r Galon ar S4C ddechrau'r flwyddyn.

Os hoffech gyfrannu at yr apêl drwy noddi'r tîm, cysylltwch â Nia (Peris) yn y Lolfa neu Anita a Martin (Saycell) yn 11 Dol Pistyll.

## Clwb Nos Wener

Dwy actores amryddawn fu'n diddanu yn Nghlwb Nos Wener ar y 16 Mai, a chafwyd noson hwyliog dros ben yng nghwmni Rhian Morgan a Llio Silyn, y ddwy wedi ymgartrefu erbyn hyn yn Sir Gaerfyrddin. Roedd y Sioe 'Dynes a Hanner' yn olrhain hanes rhai o arwresau Cymru ar hyd yr oesoedd trwy gyfrwng stori a chân. Menywod diddorol a lliwgar fel Jemeima Niclas, Gwenllian, Melangell, Marged Fwyn Ferch Ifan a llawer mwy.

Cawsant ymateb cynnes gan y gynulleidfa yn y Llew Du, Tal-y-bont a nifer wedi eu hatgoffa o'r newydd am rai o brif arwresau Cymru ac wedi dod i adnabod rhai eraill oedd wedi hen ddiflannu i lwch y gorffennol.

### Clwb Nos Wener

Bydd noson gabare yn cael ei chynnal ar Nos Wener, 27 Mehefin yng Ngwesty'r Llew Du, Tal-y-bont yn nghwmni'r digrifwr Eilir Jones (Ffarmwr Ffowc). Tocynnau £15 yn cynnwys bwyd ac adloniant oddi wrth Fal Jenkins, 01970 832560

## Y Gair Olaf



Mae (bron) pawb yn cytuno am bwysigrwydd cadw'r iaith Gymraeg yn fyw fel iaith gymunedol, yn hytrach 'na'i bod yn rhywbeth i'r capel, yr ysgol a dogfennau swyddogol yn unig. Ond mae 'na broblem fawr.

Mae nifer o'r mewnfudwyr di-gymraeg yn ceisio dysgu'r iaith, ond i fod yn realistig, lleiafrif ohonyn nhw sy'n cyrraedd lefel digon rhugl i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Fel canlyniad mae dwy gymuned gennym - y rhai sy'n rhugl eu Cymraeg, a'r gweddill. Felly sut y gallem greu un gymuned, lle mae pawb yn gallu cymdeithasu a gweithio gyda'i gilydd, heb droi at y Saesneg.

Mae'r ateb yn glir, o leiaf mewn cyfarfodydd - darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, ond ydy e? Nac ydy, yn anffodus. Mae costau cyfieithwyr yn uchel ac mae cyfieithwyr proffesiynol yn brin. Bu Cyngor Llangynfelyn yn talu £70 am gwpl o oriau: dyna 10% o incwm y cyngor! Mae'r broblem yn waeth i gymdeithasau fel Treftadaeth Llangynfelyn.

Ond mae grantiau ar gael, siŵr o fod? Nac oes. Ychydig flynyddoedd yn ôl, fe gafodd y Cyngor grant am flwyddyn gan Gronfa Eleri, ond beth am grantiau gan y Cyngor Sir, y Llywodraeth, y Mentrau Iaith, Comisiynydd yr Iaith? Dim gobaith - maent yn gwario ffortiwn ar gyngor am 'yr iaith', ond dim ceiniog am bethau ymarferol.

Felly beth yw'r ateb? Rhaid gwario arian cyhoeddus. Ond yn hytrach na gwario'r arian ar gyflog pobl sy'n siarad am ddyfodol yr iaith, beth am ddefnyddio'r arian i wneud rhywbeth i sicrhau'r iaith yn ein cymunedau ni?

*Nigel Callaghan*

## Licris Olsorts

Wedi blwyddyn o seibiant y llynedd mae'r cwmni wedi bod yn brysur eleni eto yn cynhyrchu dwy ddrama dan arweiniad brwd y cynhyrchydd Sion Pennant, Bontgoch. Mae'r ddrama 'Cylymau' gan Marged Pritchard, wedi ei gosod mewn ystafell aros ac yn cyfleu'r tyndra rhwng y trigolion lleol sy'n aros i weld y doctor. Mae'r cast yn cynnwys Eleri James, Cwmudw a Sioned Morris, Ysgol Gynradd Tal-y-bont. Mae'r ddrama arall Parsel, cyfieithiad John Griffith Jones a Sion Pennant o ddrama fer David Campton yn adrodd hanes dwy chwaer yn gofalu am eu taid a'r helbul pan aiff taid ar goll. Ymysg aelodau'r cast yma mae Rhian Evans, Glanrafon a Sion Pennant.

Teithiodd criw y 'Parsel' i gystadlu yng Ngŵyl Ddrama'r Groeslon ddiwedd Ebrill gan gipio'r drydedd wobr. Bu'r ddwy ddrama yn cystadlu yng Ngŵyl Ddrama Corwen ddechrau mis Mai a llwyddodd criw y 'Parsel' i gipio'r ail wobr gyda chanmoliaeth uchel i'r cynhyrchiad yn gyffredinol a'r actorion. Bydd y ddrama hon yn cael ei pherfformio yn Theatr Fach y Maes, ddydd Mercher yr Eisteddfod yn y gystadleuaeth perfformio drama fer. Pob lwc iddynt ar y cystadlu ddechrau Awst.


**Garej Paul Joseph**

01970 822220

Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrwsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrwsio MOT



Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**Iwan Jones**

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

pp mehefin 14_Layout 1 11/06/2014 06:52 Page 12

# CHWARAEON



## Llwyddiant Ysgubol

Efallai mai'r tîm mwyaf talentog i gynrychioli Tal-y-bont erioed yw'r tîm dan 12 sydd wedi cael tymor hynod lwyddiannus eleni, dan ofal yr hyfforddwr doeth Wyn Benjamin. Yn y cynghrair, chwaraeodd y bechgyn ddeunaw gêm gan ennill 17 ohonynt a sicrhau gêm gyfartal yn yr un arall. Sgoriwyd 85 gôl, ildio ond deg wrth iddynt gael eu coroni'n bencampwyr.

Yn y gwpan, enillwyd gemau yn erbyn Penparcau Flames a Penrhyn Celts er mwyn cyrraedd y rownd gynderfynol yn erbyn Bow Street. Mewn gêm agos rhaid oedd gwahanu'r ddau dîm drwy gyfres o giciau o'r smotyn a Thal-y-bont enillodd 3-2. Chwaraewyd y rownd derfynol yn erbyn Penrhyn-coch ar Goedlan y Parc, Aberystwyth, ar 10 Mai. Mewn gêm agos, un gôl a sgoriwyd a honno gan Bedwyr yn yr hanner cyntaf i sicrhau'r fuddugoliaeth. Dyfarnwyd Huw Taylor, gôl-geidwad Tal-y-bont, yn "chwaraewr y gêm".

Felly enillwyd 'y dwbl' gan y tîm talentog hwn ac edrychwn ymlaen at weld llawer ohonynt yn disgleirio ar feysydd pêl-droed Cymru a thu hwnt yn y dyfodol.

## Cap Coch Cymru



Ar 24 Mai teithiodd Nia Jones, Ardwyn, Tal-y-bont, i Glwb Golff St Pierre, Cas-gwent, lle y cyflwynwyd cap pêl-droed Cymru dan 16 mlwydd oed iddi. Chwaraeodd Nia bum gwaith ar y lefel hynny ac yn ddiweddar bu'n rhan o garfan dan 17 Cymru. Yn y tymor sydd i ddod bydd yn gobeithio cael ei dewis i dîm dan 19 Cymru. Pob lwc iddi yn ei gyrfa gyda'r bêl gron.



*Barri Southgate yn penio'r gôl yn erbyn y Coleg*

## Dyrchafiad ond dim Pencampwriaeth

Er i Glwb Pêl-droed Tal-y-bont ennill dyrchafiad i adran gyntaf Cynghrair Aberystwyth a'r cylch y tymor nesaf, cafwyd siom wrth i'r tîm lithro yng ngemau olaf y tymor ac o ganlyniad methu ag ennill y bencampwriaeth. Yn anffodus collwyd gemau agos, yn aml o un gôl yn unig, a dyna ddigwyddodd yn y gêm olaf dyngedfennol yn erbyn tîm y Coleg ar faes Cae'r Odyn Galch ar 8 Mai . Wedi ildio dwy gôl gynnar a cholli'r blaenwr talentog Jamie Evans i anaf, treuliodd Tal-y-bont llawer o'r gêm yn pwyso ond heb argyhoeddi o flaen y gôl. Dim ond pan lwyddodd Barri Southgate i ddarganfod lle yn y cwrt cosbi a phenio'r bêl i gefn y rhwyd y daeth elfen o obaith. Serch hynny, ni ddaeth yr ail gôl a fyddai wedi sicrhau'r bencampwriaeth. Siom felly a bydd angen atgyfnerthu'r tîm os am lwyddo yn yr adran gyntaf.



*Jamie Barron a blaenwr y Coleg yn mynd am y bêl*



## Menter Newydd

Dymuniadau gorau i Eifion Jones, Craig y Delyn, Tal-y-bont ar ei fenter newydd sef Teithiau Beicio Mynydd y Canolbarth. Mae'n cynnig teithiau tywys hanner diwrnod a gyda'r hwyr ym Mynyddoedd y Cambria. Yn ogystal, i'r rhai heb ddim profiad o feicio mynydd mae'n cynnig sesiynau hyfforddi 1½ awr er mwyn cyflwyno'r sgiliau sylfaenol. Am ragor o wybodaeth ewch i'r wefan www.midwalesmountainbikeguides.com

# Gŵyl Pêl-droed Talybont

**Maes Chwarae, Cae'r Odyn Galch, Talybont a'r Cylch**

**21/6/14**

**Dewis Lwcus £1** yr un **Gwobrau | £100 | £50 | £25**

**Bydd bwyd ar gael ar y maes**

**Dan 7 | Dan 9 | Dan 11 | Dan 12 Dechrau 10am**

Oedolion **£2**



pp mehefin 14 dathlu 40_Layout 1 10/06/2014 21:22 Page 1

Papur Pawb

Atodiad Arbennig Rhif 400

DATHLU 40 MLWYDDIANT EIN PAPUR BRO

# Staff Papur Pawb 1984



Rhes gefn: Arwyn Jones, Ceri Jones, Robat Gruffudd, Harri James, Gwyn Jenkins, Phil Davies, Hefin Llwyd, Bob Williams, Kathleen Richards, Beti Ffowcs, Beatrice Davies, Arvid Parry-Jones
Rhes ganol: Geraint Evans, Goronwy Jones, Ithel Jones, Huw Huws, Gwilym Huws, Gwyn Royle, Eiriona Metcalfe, Mai Leeding, Carys Briddon, Glenys Edwards, Nesta Evans, Medi James
Rhes flaen: Eirian Evans, Fal Jenkins, Dilys Morgan, Gwen Davies, May Royle, Hilda Thomas, Eleri Huws, Megan Mai, Aileen Williams, Rita Llwyd, Enid Gruffydd

# Staff Papur Pawb 2014-



Rhes gefn: Arvid Parry-Jones, Rhian Evans, Geraint Evans, John Leeding, Ceri Jones, Arthur Dafis, Elgan Griffiths, Bleddyn Huws
Rhes ganol: Siân Saunders, Mared Llwyd, Gwenllian Parry-Jones, Catrin Jenkins, Llio Rhys, Beryl Evans, Carys Briddon, Mai Leeding, Sian Pugh, Geraint Pugh, Rebecca Williams, Gwyn Jenkins, Siôn Pennant, Phil Davies, Richard Huws
Rhes flaen: Dilys Morgan, Aileen Williams, Megan Mai, Tegwen Jones, Fal Jenkins, Myfanwy James, Helen Jones, Medi James, Enid Gruffydd, Glenys Edwards

pp mehefin 14 dathlu 40_Layout 1 10/06/2014 21:22 Page 2



# Dyddiau Cynnar Papur Pawb

Mae'r llyfrau hanes yn ein hatgoffa mai yn 1974 y clustnodwyd Dydd Calan yn Ŵyl Banc yng Nghymru am y tro cyntaf, a'r tro diwethaf i ddau etholiad cyffredinol gael eu cynnal yn yr un flwyddyn. Yn y flwyddyn hon hefyd yr ymddangosodd Ciwb Rubik a Chyngor Sir Dyfed. Ym mis Hydref 1974 yr agorodd bwyty cyntaf McDonald's, ac y darlledwyd rhifyn cyntaf *Pobol y Cwm*. Hydref 1974 hefyd oedd dyddiad cyhoeddi rhifyn cyntaf *Papur Pawb*.

Wrth fodio eto drwy'r rhifyn cyntaf, y peth a'm trawodd oedd y penawdau bachog, llawn hyder yr ifanc, am nodweddion y papur: 'Papur Pawb – y GORAU am luniau!'; 'Papur Pawb – y GORAU am newyddion y fro!'; 'Papur Pawb – y GORAU am hanes y cylch!' a 'Papur Pawb – y GORAU am chwaraeon lleol!'. Yna, dan y pennawd 'Papur Pawb – y GORAU am newyddion y fro!', ceir y canlynol: 'Os ydym am gyfiawnhau'r broliant uchod mae'n rhaid i CHI'n helpu ni. Peidiwch â'n beirniadu am anghofio crybwyll eich priodas arian, neu'r gôt minc brynodd gŵr Mrs Jones drws nesaf i chi ar eich pen-blwydd, ond yn hytrach anfonwch newyddion ac adroddiadau o ddiddordeb lleol i PAPUR PAWB . . .'. Ategir byrdwn y neges hon yn y golofn olygyddol, lle nodir y bydd y papur yn 'anelu i adlewyrchu pob agwedd ar fywyd cymdeithasol a diwylliannol y cylch mewn gair a llun'. Roedd y sylfaenwyr am i bawb feddwl am y papur 'fel gwasanaeth sy'n perthyn i'r gymdeithas gyfan – megis neuadd bentref neu gae chwarae – ac nid rhywbeth sy'n perthyn i grŵp bychan o fewn yr ardal'.


Papur Pawb 5c
YSGOL LEOL I GAU?
canu
SIOE TALIESIN
REES ASTLEY
ABERYSTWYTH

Y rhifyn cyntaf

Er mai ym 1974 yr ymddangosodd y rhifyn cyntaf, ar brynhawn braf o haf yn 1973 – a hynny mewn atig tŷ yn Nhal-y-bont, sir Feirionnydd – yr eginodd y syniad o sefydlu papur Cymraeg i wasanaethu'r ardal. Roeddwn yno ar ran Coleg Llyfrgellwyr Cymru yn chwilota trwy gasgliad amhrisiadwy o lyfrau Cymraeg, ond yr eitem a dynnodd fy sylw oedd amlen fechan ddinod yr olwg. Ynddi roedd rhifynnau o'r cyfnodolyn *Seren y Mynydd*, a sefydlwyd yn y 1890au gan O.M. Edwards i wasanaethu plwyf Llanuwchllyn. Ar ôl cael blas ar y deunydd, bu'r syniad o sefydlu cyhoeddiad tebyg yn troi yn fy mhen am fisoedd. Dysgais yn ddiweddarach am fenter debyg a ddechreuwyd yn 1956 gan Huw J. Evans, Prifathro Ysgol Llangynfelyn, sef *Lloffion Llangynfelyn* – chwarterolyn fyddai'n cynnwys 'pigion o hanes ein plwyf yn y presennol a'r gorffennol'. Yn anffodus, byrhoedlog fu hanes y ddau gyhoeddiad uchod.

Os mai O.M. Edwards oedd yr ysbrydoliaeth, yna Robat Gruffudd biau'r clod am droi'r freuddwyd yn ffaith. Roedd Y Lolfa eisoes wedi rhoi'r ardal ar y map gyda'i rhaglen gyhoeddi arloesol. Gwyddwn y byddai Robat yn sicr o roi pob cefnogaeth i fenter fyddai'n poblogeiddio'r iaith, ac wrth gwrs roedd ei brofiad fel argraffydd a chyhoeddwr yn amhrisiadwy. Mynnodd Robat fwrw ati ar unwaith, cyn bod cyfle i gael traed oer, a galwodd gyfarfod anffurfiol yn ystafell gefn y Llew Du gan wahodd Hefin Llwyd a Siôn Myrddin atom. Erbyn hyn, roeddwn yn chwilio am bob esgus i ohirio'r fenter, ond doedd dim troi'n ôl i fod pan gynigiodd Robat argraffu'r tri rhifyn cyntaf am ddim.

Gosodwyd cynllun y papur yn y rhifyn cyntaf – stori flaen yn tynnu sylw at fater llosg lleol; tudalen yn cofnodi genedigaethau, priodasau, pen-blwyddi a llwyddiannau unigolion; adroddiadau am weithgareddau cymdeithasau lleol; colofnau rheolaidd; hanes a chwaraeon. Yr awgrym cyntaf oedd argraffu 200 copi ond, yn ôl ei arfer, gwrthododd Robat wrando ar gyngor y gweddill ohonom gan argraffu 400 copi – a theimlad braf oedd deall i'r papur gael croeso brwd, a bod pob copi wedi'i werthu o fewn dyddiau.

Er mai criw bychan iawn oedd y tu cefn i sefydlu'r papur, ni fyddai wedi goroesi mwy nag ychydig fisoedd oni bai am gymorth parod nifer fawr o bobl – colofnwyr, gohebwyr ardal, teipwyr, plygwyr a dosbarthwyr – a chefnogaeth siopau a busnesau lleol. Pan gasglwyd y gwirfoddolwyr gweithgar hyn i gyd at ei gilydd i dynnu llun ar achlysur dathlu pen-blwydd *Papur Pawb* yn 10 oed, roedd dros 35 yn y llun – ond petai pawb yn bresennol y pnawn hwnnw byddai'r rhif wedi bod yn nes at 50.

Yn y dyddiau cynnar hynny – cyn bod neb wedi clywed am brosesyddion geiriau, heb sôn am gyhoeddi 'pen bwrdd' – byddai'n rhaid teipio'r deunydd, a hynny mewn colofnau tair modfedd o led. Câi'r colofnau hyn eu torri'n stribedi hir cyn eu gosod – ynghyd â'r penawdau, y lluniau a'r hysbysebion – ar gardfwrdd o faint arbennig a'u gludo i lawr gyda 'Cow Gum' (melys atgofion!) yn barod i'w hargraffu yn Y Lolfa. Gwnaed y gwaith i gyd ar fwrdd cegin Tŷ Gwyn, gyda 'help' tri o blant bach direidus, a mwy nag unwaith daethpwyd o hyd i bwt o stori 'golledig' oedd wedi glynu o dan goes y bwrdd rai dyddiau wedi i'r papur ymddangos!

O'r cychwyn cyntaf, rhoddwyd pwyslais ar ofalu bod y papur mor ddeniadol â phosib o ran ei ddiwyg trwy gadw'r adroddiadau'n fyr, a defnyddio penawdau breision a lluniau niferus. Bu'n rhaid aros hyd blwyddyn olaf y ganrif ddiwethaf i wireddu breuddwyd arall, sef taflu'r siswrn a'r glud o'r neilltu a chysodi'r testun a'r lluniau'n ddigidol, gan hepgor nifer o brosesau araf a thrafferthus. Yna, ym mis Medi 2008, dechreuwyd cynnwys nifer o luniau lliw i fywiogi diwyg pob rhifyn ymhellach.

Ar waetha'r ffaith bod nifer o gyfranwyr cyson y papur dros y blynyddoedd wedi ein gadael, ac eraill – gan gynnwys tri o'r pedwar a'i sefydlodd – wedi troi'n alltud, mae'n galondid mawr ar drothwy'r 400fed rhifyn i weld bod *Papur Pawb* yn fywiocach o ran ei gynnwys a'i ddiwyg nag erioed, a'i seiliau'n gadarnach nag ar unrhyw adeg yn ei hanes. Beth sydd i gyfrif am ei hirhoedledd? Carwn awgrymu mai'r rheswm yw bod nifer dda o'r trigolion wedi bod yn barod i ysgwyddo'r baich o'i gynnal am eu bod yn ei weld fel cyfrwng pwysig i hybu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, a chymdogaeth glòs y fro.

*Gwilym Huws*

# Dathlu Deugain

Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno'r atodiad arbennig hwn i rifyn 400 Papur Pawb a rhifyn dathlu pen-blwydd y papur yn ddeugain oed. Ar y dudalen hon ceir hanes sefydlu *Papur Pawb* gan Gwilym Huws ac mae'n amlwg fod y byd wedi newid cryn dipyn ers y dyddiau arloesol hynny. Serch hynny, gobeithio bod y safonau a osodwyd ddeugain mlynedd yn ôl wedi'u cynnal hyd heddiw. Cynnyrch gwirfoddolwyr - llu ohonynt - fu ein papur bro ni erioed a gobeithir y bydd cenedlaethau i ddod yn fodlon ysgwyddo'r baich o gynnal y papur at y dyfodol.

Ar y dudalen flaen ceir llun o 'staff' *Papur Pawb* yn 1984 ar achlysur dathlu deng mlwyddiant y papur. Chwith yw gweld bod sawl un a fu'n hoelion wyth yn y gymuned bellach wedi'n gadael a bod ambell un arall wedi heneiddio tipyn. Sylwaf nad oedd gen i ddim blewyn o wallt gwyn yn 1984, bellach mae'r stori'n wahanol - Papur Pawb sy'n cael y bai!

Fel y gwelir o'r llun o 'staff' presennol, mae dros deg ar hugain o wirfoddolwyr yn cynorthwyo i gynhyrchu'r papur erbyn heddiw; pawb â'i ran yn y peirianwaith sy'n hanfodol wrth geisio cynnal ein cymuned ni.

Rwy'n ddiolchgar i Helen Jones a Ceri Jones am olygu'r atodiad hwn. Gobeithio y byddwch yn mwynhau syllu ar yr hen luniau a gyhoeddwyd yn *Papur Pawb* dros y blynyddoedd. Byddant yn siŵr o esgor ar atgofion melys.

Ymlaen yn awr at y penblwydd mawr nesaf - 50 mlynedd amdani!


*Gwyn Jenkins*
*Golygydd Cyffredinol*

pp mehefin 14 dathlu 40_Layout 1 10/06/2014 21:22 Page 3





Dathlu dengmlwyddiant y papur yn 1984



Dau o gymeriadau yr ardal Dic y Lein a Gareth Evans, Bontgoch


Plant ysgol Tal-y-bont yn dathlu yn Eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi


J.M. Jenkins yn dathlu ei benblwydd yn gant oed
gyda'i deulu ym Chwefror1976


Dau o selogion y carnifal yn eu lifrai sanctaidd,
Bob Southgate a John Owen Ellis


Geraint Evans a Gwilym Huws yn perfformio yn ôl eu harfer



Gwyn a May Royle wedi darganfod trysorau
tu ôl i'r lle tân yn eu cartref yn Felinfach

pp mehefin 14 dathlu 40_Layout 1 10/06/2014 21:22 Page 4





Mrs Ann Jane Griffiths, Frondeg, Taliesin a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 95 mlwydd oed yn Rhagfyr 1983



Y teiliwr Mr James Ellis, Penrow, Bontgoch



Miss Juanita James a aned yn Colombia, de America, Ebrill 1983



Cystadleuaeth babis pertaf Tal-y bont yng Ngharnifal 1994



Cyfarfod Diolchgarwch CFFI Elerch Bontgoch 2009



Mr a Mrs Isaac Owen, Tal-y-bont Mai 1986



Nyrs Evans ar ei hymddeoliad, Tachwedd 1980




Y teulu Morris, Maesyderi wedi ennill gwyliau mewn cystadleuaeth

pp mehefin 14 dathlu 40_Layout 1 10/06/2014 21:22 Page 5





Arwyn a Robert Parry Jones yn dilyn ôl troed eu tad dawnus



Dilwyn Evans Tynant a Mr. D R Mason, Bryngwyn



Mr Dei Price Morgan, Llywydd Sioe Tal-y-bont 1995 gyda Mr Gwilym Jenkins.



Rhian Evans, Glanyrafon gyda'r ddiadell fuddugol, yn sioe Tal-y-bont 1983



Mr John Bond, pencampwr ar yr Winwns a nifer o lysiau eraill yn Sioeau Llangynfelyn a'r cylch



Mr Bennet Jenkins, buddugwr cyson yn Sioe Tal-y-bont



Mrs Mary Ellis, brenhines y blodau, 1986



Mr Arthur Jones, garddwr o fry

pp mehefin 14 dathlu 40_Layout 1 10/06/2014 21:22 Page 6





Y teulu Southgate fel y Simpsons



Y Rhufeiniaid, Gwyndaf a Jano Evans



Eleri James, Peachy Cox ??? yn y Carnifal



Brenhines y carnifal, Aeron gyda'i forynion Spencer a Ken, Awst 1985



Enillwyr dan 7 carnifal 1985, Dyfan Evans, Annabel Evans a Ben Fothergill



Geni etifedd y goron yn Nhal-y-bont, Ceri, Myfanwy, Goronwy ac Aileen



Carnifal Eglwysfach Haf 1981



Sid Titman, John Elis a John Bement, selogion y carnifal

pp mehefin 14 dathlu 40_Layout 1 10/06/2014 21:22 Page 7





Gwilym Jenkins, Llywydd y Gymdeithas Defaid Mynydd, yn cyflwyno Tarian Rhosgoch i Dafydd Jenkins a'r meibion, Tanyrallt



Aelodau o'r Clwb Ffermwyr Ifanc, Nadolig 1982



Plant Ysgol Llangynfelyn yn eu gwisgoedd Cymreig, 1989



Nesta Evans yn derbyn rhodd gan Robat Gruffudd ar ran Papur Pawb




Tîm Pêl-rwyd Tal-y-bont Hydref 2002

pp mehefin 14 dathlu 40_Layout 1 10/06/2014 21:22 Page 8





Pasiant hanesyddol i ddathlu canmlwyddiant Ysgol Llangynfelyn ym Mehefin 1976



Gerwyn Jones, Tachwedd 1987



Mr Dei Price Morgan a Nyrs, a Molly Foster yn y Sioe



Aelodau o Gymdeithas Rieni Athrawon Ysgol Tal-y-bont mewn gwisg ffansi



Seiclwyr wrthi'n codi arian at achos da



Carfan Ceulan 4, tîm bowls y pentref, Hydref 1983




Monica a Simon Lloyd Williams, testun y golofn Oriel y Dysgwyr, Tachwedd 1980

pp mehefin 14 dathlu 40_Layout 1 10/06/2014 21:22 Page 9





Dilys Morgan yn helpu plant yr ardal i addurno wyau Pasg



Dathlu'r Nadolig yn Ysgol Llangynfelyn 1988



Tynnu rhaff yn y carnifal 1976



Plant Ysgol Llangynfelyn yn gofalu am yr amgylchedd 2007



Mrs Enid James yn gweini'r cawl Gŵyl Ddewi 1984

pp mehefin 14 dathlu 40_Layout 1 10/06/2014 21:22 Page 10





Tîm pêl-droed plant yr ardal, tua 1980



Yr arlunydd crefftus Griff Jones, James Street, Tal-y-bont, Chwefror 1985



Mari Dolcletwr ag wyn cynta'r tymor 2010



Ifan Jenkins, Carregcadwgan yn ei ffedog



Dathlu'r Nadolig yn Nghapel Bethel



Cylch Meithrin yn dathlu'r Nadolig ym 1994



Tîm badminton Ieuenctid yn 1981



Angylion Ysgol Sul Bethel, Nadolig 2006

pp mehefin 14 dathlu 40_Layout 1 10/06/2014 21:22 Page 11






Justin Manley yn cadw trefn ar ras hwyaid



Bugeiliaid Ysgol Tal-y-bont 2006



Criw o bysgotwyr ifanc gyda'u 'catch' yn Nant y Cagal Medi 1987



Gwaith cynnal a chadw wrth yr afonydd ym Tachwedd 1985




Plant Ysgol Sul Bethel ar orymdaith heddwch



Y gymuned wrthi'n cynorthwyo'r gwaith o glirio wedi llifogydd Mehefin 2012



Llifogydd Mehefin 2012

pp mehefin 14 dathlu 40_Layout 1 10/06/2014 21:22 Page 12






Gêm Ddydd San Steffan Clwb Pêl-droed Tal-y-bont,1984



Tîm criced Tal-y-bont yn dathlu buddugoliaeth



Tîm dartiau merched y Llew Gwyn yn dathlu buddugoliaeth.




Chwaraewyr Rygbi o fry Ebrill 1982



Tîm pêl rwyd o ferched yr ardal



Sefydlu Clwb Snwcer Neuadd Goffa Tal-y-bont, Tachwedd 1982